



**...Dod â phobl at ei gilydd
i gwrdd, gwranddo a siarad...**

CAFF – Cymdogion a Ffrindiau

Croeso i CAFF

Rydym yn falch eich bod wedi penderfynu dod i gyfarfod Grŵp FAN ac yn gobeithio y byddwch yn ei fwynhau. Mae cyfarfodydd yn para tua awr.

Beth sy'n digwydd mewn cyfarfod Grŵp FAN?

Mae pob cyfarfod yn dechrau drwy ddarllen y Datganiad Agoriadol. Mae hwn yn egluro egwyddorion a gwerthoedd FAN a beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod.

Yna, gwahoddir chi a chyfranogwyr eraill i siarad am ychydig funudau am:

- eich bywyd
- eich wythnos
- eich syniadau neu'ch teimladau ynghylch pwnc y dydd

Pan fydd rhywun arall yn siarad, gofynnwn i bawb wrando'n dawel heb dorri ar eu traws. Fel arfer, mae amser i sgwrsio'n anffurfiol ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.

Pan fydd pawb sydd eisiau siarad wedi gwneud hynny, rydym yn darllen Datganiad Cloi.

Pethau pwysig i'w gwybod

- Gelwir y person sy'n arwain y grŵp yn Hwylusydd.
- Nid oes rhaid i chi siarad os nad ydych chi eisiau.
- Nid oes rhaid i chi ddod bob wythnos.
- Nid oes angen i chi archebu lle.
- Nid oes rhaid i chi dalu i fynychu.

Mae rhai Grwpiau FAN yn cynnig lluniaeth ysgafn. Nid yw eraill yn gwneud hynny. Os na, efallai bod modd archebu bwyd neu diod yn y lleoliadau lle rydych chi'n cyfarfod. Bydd eich Hwylusydd yn rhoi gwybod i chi.

Gwybodaeth bwysig am breifatrwydd a diogelwch

Eich gwybodaeth (Diogelu Data)

- Gall y hwylusydd ofyn am eich manylion cyswllt (fel arfer eich cyfeiriad e-bost) er mwyn rhoi gwybod i chi am gyfarfodydd neu weithgareddau FAN yn y dyfodol.
- Ni fyddant yn cysylltu â chi am unrhyw reswm arall oni bai eich bod yn cytuno i hynny.
- Nid oes rhaid i chi roi eich manylion cyswllt os nad ydych chi eisiau.
- Bydd y wybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Gallwch ofyn i'ch manylion gael eu dileu ar unrhyw

The FAN Charity: Information Guide: Welcome to FAN Cymraeg

Created: 02/26 Latest review: 09/26 Next review: 06/27 Final version

adeg.

Parch at bawb

Mae FAN yn croesawu pawb ac yn dangos parch at bawb.

Mae hyn yn golygu:

- Rydym yn garedig â'n gilydd.
- Rydym yn parchu gwahaniaethau pobl.

Nid yw sylwadau negyddol neu niweidiol am hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gredoau eraill yn dderbyniol yng nghyfarfodydd FAN.

Mae'r canllawiau hyn yn helpu i wneud FAN yn lle diogel a chefnogol i bawb.

Diogelwch (Diogelu)

Mae llawer o bobl yn mwynhau dod i adnabod eraill yn y Grŵp FAN, ac mae croeso i chi gwrdd ag aelodau eraill y tu allan i'r cyfarfodydd os dymunwch.

Mae unrhyw gyfeillgarwch neu gynlluniau a wneir y tu allan i gyfarfodydd FAN yn ddewisiadau personol rhwng unigolion, ac nid yw FAN yn gallu rheoli na chymryd rhan mewn trefniadau a wneir y tu allan i'r Grŵp.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau bod yn rhan o FAN!

Mae Elusen FAN wedi dilyn amrywiaeth o bolisiau ar gyfer diogelu'r rhai sy'n mynychu Grwpiau FAN, ei staff a'i wirfoddolwyr, gan gynnwys hwyluswyr.

Mae'r rhain yn cynnwys polisiau ar gyfer Diogelu, Diogelu data, Iechyd a diogelwch, Caniatâd (Ffotograffiaeth a ffilmio) a pholisi Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Gallwch ddarllen y polisiau yma: <https://www.thefancharity.org/governance/>

Mae llawer o Grwpiau FAN ac gallwch fynd i gynifer ag y dymunwch.

Gwybodaeth gyfredol am gyfarfodydd FAN a materion eraill ar gael trwy:

Gwefan: www.thefancharity.org neu Ffôn: 07880-630553 neu drwy e-bost:

Ymddiriedolwr Arweiniol Diogelu: safeguarding@thefancharity.org

Ymddiriedolwr Arweiniol GDPR: dataprotection@thefancharity.org

Swyddog Datblygu FAN: Dwyrain Cymru: Janina.Kuczyz@thefancharity.org

Swyddog Datblygu FAN: Gorllewin Cymru: Philippa.Wisdom@thefancharity.org